TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 4 - Cymdeithas sy'n newid
## Pecyn addysgu enghreifftiol
## Yr Oesoedd Canol

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# TGAU Hanes Uned 4: Cymdeithas sy'n newid

**Enghraifft:** Effaith Concwest y Normaniaid ar ynys Prydain Fawr tua 1060 – tua 1153

Pynciau hanesyddol a ddewiswyd fesul thema

| | |
|---|---|
| **Cysylltiadau rhyngwladol** | Yr olyniaeth Eingl-Sacsonaidd |
| **Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb** | Y System Ffiwdal |
| **Heddwch a gwrthdaro** | Gwrthwynebiad Eingl-Sacsonaidd i reolaeth Normanaidd, 1067–1070 |
| **Diwylliant** | Datblygiad cestyll |
| **Ethnigrwydd** | Anheddu Iddewig wedi'r Goncwest Normanaidd |
| **Crefydd** | Archesgob Lanfranc a Christnogaeth yn Ynysoedd Prydain, 1070–1089 |
| **Cymdeithas ac economi** | Llyfr Domesday |
| **Gwleidyddiaeth** | Harri I a'r Siarter Rhyddidau, 1100 |
| **Rhyw, rhywioldeb a rhywedd** | Ymerodres Matilda a'r Anarchiaeth |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Yr olyniaeth Eingl-Sacsonaidd

**Eitem 1** Cofnod blog â'r teitl 'The death of Edward the Confessor and the conflicting claims to the English Crown' ar wefan Llywodraeth Prydain (2016)

Edward oedd mab hynaf Brenin Æthelred ('y Digyngor') o'i ail briodas ag Emma, chwaer Dug Richard II o Normandi. Trefnwyd y briodas fel rhan o ymdrechion Aethelred i wella cysylltiadau Lloegr â Normandi. Ond roedd gan Æthelred feibion o'i briodas gyntaf, a phan fu farw yn 1016, gwnaeth hyn yng nghanol brwydr dros yr orsedd rhwng ei fab hynaf a oedd wedi goroesi, Edmund Ironside, a Cnut Mawr o Ddenmarc. Bu farw Edmund yn fuan wedyn, a phan fu farw, esgynnodd Cnut i deyrnas Lloegr.

Pan fu farw Cnut, cododd anghydfod arall ynghylch olyniaeth rhwng meibion gwraig gyntaf Cnut, Æthelred o Northampton, a meibion ei ail wraig, gwraig weddw Æthelred, Emma. Yn yr anghydfod hwnnw, llofruddiwyd brawd Edward, Alfred, efallai drwy anogaeth Emma. Dim ond ar ôl saith mlynedd hir yr esgynnodd Edward i deyrnas Lloegr yn 1042, gan roi llinell Wessex yn ôl ar orsedd Lloegr.

**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Yr olyniaeth Eingl-Sacsonaidd

**Eitem 2** William o Poitiers, caplan Dug William II o Normandi (William I o Loegr) yn ei *History of William the* Conquerer (tua 1073).

Roedd Brenin Edward yn caru William fel brawd ... ac roedd wedi addo y byddai'n frenin nesaf Lloegr. Anfonodd Harold draw at Ddug William i ailadrodd yr addewid ... tyngodd Harold lw i fod yn ffyddlon ac yn ufudd i William. Gwnaed yr addewid difrifol hwn yn y ffordd Gristnogol sanctaidd arferol.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Yr olyniaeth Eingl-Sacsonaidd

**Eitem 3** Golygfa 25 o Dapestri Bayeux: ET VENIT AD EDVVARDUM REGEM [A daeth at Frenin Edward], yn dangos dychweliad Harold i Loegr o Normandi (1070)




**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Yr olyniaeth Eingl-Sacsonaidd

**Eitem 4** Malcolm Barber, athro Hanes, yn amlinellu gweithredoedd Harold Godwinson rhwng 1064 a 1066 (1992)

Beth bynnag oedd ei gynlluniau blaenorol, yn 1064 canfu Harold ei hun yn cael ei wthio tuag at olyniaeth Normanaidd. Mae'n debyg mai yn ystod y flwyddyn honno y croesodd y sianel. Nid yw'r rhesymau dros y daith hon yn sicr, ond mae'r rhan fwyaf o haneswyr wedi tybio iddo gael ei anfon gan Edward i gadarnhau olyniaeth William, a'i fod, erbyn hyn, wedi derbyn ei fod yn anochel. Os felly, cyrhaeddodd Normandi ar ôl dilyn llwybr cwmpasog oherwydd tywydd gwael mae'n debyg, glaniodd yn Ponthieu, cafodd ei ddal gan Iarll Gue, a'i bridwerthu. Pan oedd yn Normandi tyngodd lw o deyrngarwch i William ac yn ôl pob sôn, gwnaeth bopeth o fewn ei allu i sefydlu William ar yr orsedd ar ôl marwolaeth Edward. Roedd y digwyddiadau rhyfedd hyn yn golygu, pan fu farw Edward ym mis Ionawr 1066, gallai Harold a William roi eu dehongliadau eu hunain arnynt, oherwydd gallai Harold ddadlau bod addewidion wedi'u gwneud dan orfodaeth, a gallai William honni mai gweithred anudonwr oedd proses Harold o gipio'r orsedd. Derbyniwyd fersiwn William yn fwy eang, yn rhannol am iddo gael ei gynrychioli yn llys y pab yn wahanol i Harold.

At hynny, roedd yn sicr bod Harold yn ymwybodol nad William oedd yr unig hawlydd arall. Ar 20 Medi 1066, trechodd byddin fawr dan arweiniad Harold Hardrada, brenin Norwy a Tostig, Iarll Northumbria a ddiorseddwyd a brawd Harold ei hun, fyddin Lloegr ger Caerefrog a chipio'r ddinas. Hawliodd Harold Hardrada yr orsedd ar sail dadl â Harthacnut, mab Cnut ac olynydd yn Lloegr hyd at ei farwolaeth yn 1042, a Magnus, Brenin Norwy, a fu farw yn 1047. Felly, ymdeithiodd Harold i'r gogledd, er ei fod yn gwybod yn iawn mai dim ond aros am gyfle ffafriol i ymosod yn y De yr oedd William.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Y Drefn Ffiwdal

**Eitem 5** Disgrifiad o'r system ffiwdal yn y gwerslyfr *The Medieval* Realms (1991)

Ar ôl i William gael ei wneud yn Frenin Lloegr, bu'n rhaid iddo benderfynu sut byddai'n llywodraethu'r wlad. Nid oedd am i hen uchelwyr Lloegr gadw eu hystadau, oherwydd byddent yn rhy bwerus a gallent geisio ei daflu allan. Beth bynnag, roedd yn rhaid iddynt wneud lle i gefnogwyr William yr addawyd tir iddo yn gyfnewid am ei helpu.

Roedd William yn ofalus iawn i beidio â rhoi tir i ffwrdd. Cafodd ei gefnogwyr eu gwobrwyo, ond roedd ganddynt ddyletswyddau i'w cyflawni hefyd. Galwyd y system hon o ddyletswyddau a gwobrau yn system ffiwdal. Yn Normandi pan roddwyd tir i farwniaid neu esgobion, byddai'n rhaid iddynt dyngu llw o deyrngarwch i'r Arglwydd a oedd yn ei roi. Talu gwrogaeth oedd yr enw ar hyn. Yna byddai'r barwniaid neu'r esgobion yn brif denantiaid ac yn cytuno i ddarparu marchogion i warchod cestyll neu i frwydro mewn rhyfeloedd dros eu harglwyddi. Po fwyaf o dir a roddwyd i Farwn, y mwyaf o farchogion y byddai'n rhaid iddo eu darparu.

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Y Drefn Ffiwdal

**Eitem 6** *'The Rime of King William'*, cofnod o 1087 yn yr *Anglo-Saxon Chronicle*, wedi'i gopïo yn y *Peterborough Chronicle* ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Gorchmynnodd y tlawd i adeiladu cestyll.
Roedd hyn yn waith caled iawn.
Roedd y brenin yn ddyn caled
A chymerodd lawer o ddarnau o aur gan ei bobl
A channoedd o bunnoedd yn fwy mewn arian ...
Roedd hyn yn annheg iawn, ac nid oedd angen yr arian arno mewn gwirionedd ...
Marciodd ardal enfawr ar gyfer ceirw, a lluniodd gyfreithiau mewn perthynas â hyn.
Byddai unrhyw un a fyddai'n lladd hydd neu ewig
Yn cael ei ddallu ...
Roedd yn caru'r ceirw mor annwyl
Ag y byddai wedi bod yn dad iddynt ...
Roedd y cyfoethog yn cwyno a'r tlodion yn wylo,
Ond roedd yn rhy ddidrugaredd i boeni pe byddai pawb yn ei gasáu,
Ac roedd yn rhaid iddynt ufuddhau iddo.
Fel arall, byddent yn colli eu bywydau yn eu tiroedd
A'u nwyddau a chyfeillgarwch eu brenin.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Y Drefn Ffiwdal

**Eitem 7** Darn o wefan hanes *Medieval Chronicles* [www.medievalchronicles.com], yn esbonio tarddiad ffiwdaliaeth yn Ewrop a'i ledaeniad i Loegr yn yr 11eg ganrif.

Daeth ffiwdaliaeth i'r amlwg yn Ewrop rywle o amgylch y 19eg ganrif a pharhaodd i fodoli fel y strwythur cymdeithasol trechaf tan y 15fed ganrif. Daeth i'r amlwg pan ddechreuodd marchfilwyr sefydlu tirddaliadaethau eu hunain, yn y bôn o ganlyniad i ddatganoli'r grym yn yr Ymerodraethau. Arweiniodd hyn at roi llawer o dirddaliadaethau yn nwylo'r milwyr hynny a ddatblygodd i fod yn uchelwyr yn y pen draw ac, yn y pen draw, rhannwyd y tir yn dirddaliadau llai a alwyd yn 'ffiffiau'.

Cododd ffiwdaliaeth yng Ngorllewin Ewrop yn yr ardal o dan yr Ymerodraeth Ffrancaidd yn ystod y nawfed a'r ddegfed ganrif. Cododd oherwydd, ar ôl i fyddinoedd a milwyr Ffrancaidd ymsefydlu, gwnaethant lwyddo i sicrhau tirddaliadau. Gan fod strwythurau cymdeithasol blaenorol a oedd yn bresennol yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid wedi chwalu yng Ngorllewin Ewrop, daeth ffiwdaliaeth i'r amlwg fel dewis amgen hyfyw i'r amgylchiadau cymdeithasol newydd. Dyna pam y lledaenodd yn gyflym i rannau eraill o Ewrop hefyd.

Daeth Dug Ffrengig Normandi â ffiwdaliaeth i Loegr ar ôl ei goncwest Normanaidd yn 1066. Ar ôl yr ymosodiad, disodlodd William yr uchelwyr Eingl-Sacsonaidd amlwg ag uchelwyr Normanaidd-Ffrengig a dechreuodd ei uchelwyr ddefnyddio arferion ffiwdal. Ar ôl y goncwest, roedd William wedi hawlio'r holl diroedd yn Lloegr ac yna wedi'u rhannu rhwng ei filwyr a'i farwniaid ei hun. Yn y drefn ffiwdal, rhoddwyd tirddaliadau i'r werin y gallent eu trin a byw arnynt yn gyfnewid am y llafur a roddwyd i dirfeddianwyr.

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Y Drefn Ffiwdal

**Eitem 8** Darlun o'r Oesoedd Canol o daeogion yn cynaeafu gwenith gyda chrymanau dan oruchwyliaeth maer (tua 1310).



© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Gwrthwynebiad Eingl-Sacsonaidd i reolaeth Normanaidd, 1067–1070

**Eitem 9** Darn o'r nofel hanesyddol *Hereward*, Last of the English gan Charles Kingsley, offeiriad Anglicanaidd, hanesydd a nofelydd (1866)

Pan drechwyd dynion Wessex, hil drechaf Prydain unwaith, yn Hastings unwaith ac am byth, ac na wnaethant ailymosod, gwrthododd dynion Rhanbarth y Daniaid ildio i'r ymosodwr Normanaidd. Gwnaethant lwyddo i ddal eu tir am saith mlynedd hir, heb fod yn ymwybodol, fel gwir Saeson, pan oeddent wedi cael eu trechu; a gwnaethant barhau i ymladd yn daer, nes nad oedd neb ar ôl i frwydro. Roedd eu hesgyrn yn gorwedd yn wyn ar bob ynys yn y corsydd; roedd eu cyrff yn pydru ar grocbrennau o dan bob gorthwr Normanaidd; llusgodd eu goroeswyr prin eu hunain i'r mynachlogydd, gyda'u llygaid wedi'u pigo allan, neu eu dwylo a'u traed wedi'u torri i ffwrdd, neu aethant i'r goedwig wyllt fel herwyr cryf. Ond ni wnaethant blygu eu gyddfau dan ieuau'r Normaniaid mewn gwirionedd; gwnaethant lwyddo i gadw gwir ysbryd annibyniaeth bresennol yn fyw yn eu calonnau.

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Gwrthwynebiad Eingl-Sacsonaidd i reolaeth Normanaidd, 1067–1070

**Eitem 10** Darn o Ran 5 o'r *Anglo-Saxon* Chronicle, 1052–1069.

A.D. 1067. Y flwyddyn hon daeth y brenin yn ôl eto i Loegr ar ddiwrnod San Nicolas; yr un diwrnod ag y llosgwyd eglwys Christ yng Nghaergaint. Bu farw Esgob Wulfwy hefyd, ac mae wedi'i gladdu yn ei esgobaeth yn Dorchester. Roedd y plentyn Edric a'r Prydeinwyr yn anniddig y flwyddyn hon, a gwnaethant ymladd â gwŷr y castell yn Henffordd, a'u niweidio'n sylweddol. Y flwyddyn hon, cyflwynodd y brenin urdd lem ar y tlodion; ond, er hyn, gadawodd i'w ddynion ysbeilio'r holl wlad ar eu hynt; ac yna ymdeithiodd i Swydd Dyfnaint a rhoddodd dinas Caerwysg dan warchae am ddeunaw diwrnod. Lladdwyd sawl un o'i fyddin; roedd wedi rhoi llu o addewidion iddynt, ond cyflawnodd yn wael; ac ildiodd y dinasyddion y ddinas am fod y brehyrion wedi eu bradychu. Yr haf hwn, gadawodd Edgar y plentyn, a'i fam Agatha, a'i ddwy chwaer, Margaret a Christina, a Merle-Sweyne, a sawl gŵr da gyda nhw; a daethant i'r Alban dan warchodaeth Brenin Malcolm, a fu'n difyrru pawb.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Gwrthwynebiad Eingl-Sacsonaidd i reolaeth Normanaidd, 1067–1070

**Eitem 11** Darluniad o lyfr lluniau o'r ugeinfed ganrif yn portreadu ymosodiad y Normaniaid ar Brydain



**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Gwrthwynebiad Eingl-Sacsonaidd i reolaeth Normanaidd, 1067–1070

**Eitem 12** Hanes o'r gwrthwynebiad i reolaeth Normanaidd gan y Mynach a'r Hanesydd Seisnig, Orderic Vitalis, yn ei gronicl Historia Ecclesiastica [Hanes yr Eglwys] (1141).

Prin oedd yr amddiffynfeydd a elwir yn gestyll gan y Normaniaid a welwyd yn Lloegr felly dim ond gwrthwynebiad gwan i'w gelynion y gallai'r Saeson ei roi, er gwaethaf eu dewrder a'u hoffter o ymladd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Datblygiad cestyll

| **Eitem 13** | Darn o'r *Second Continuation of the Peterborough Chronicle (1132–1154).* |
|---|---|
| 1137 | Pan ddaeth Brenin Stephen i Loegr, cynhaliodd ei gyngor yn Rhydychen; ac yno, cipiodd yr Esgob, Roger, o Gaersallog, ac Alexander, Esgob Lincoln, a'r canghellor Roger, ei nai; a thaflodd nhw i'r carchar nes iddynt ildio eu cestyll. Ond pan ddeallodd yr uchelwyr hyn, cefnogwyr Matilda, mai gŵr addfwyn, tyner a da oedd Stephen, ac nad oedd yn gweithredu cyfiawnder caled, gwnaethant anghofio eu haddewid iddo. Gwnaethant lenwi'r tir â chestyll a gorthrymu tlodion y tir yn greulon drwy eu gorfodi i adeiladu'r cestyll, a phan oedd y cestyll yn barod, gwnaethant eu llenwi â chythreuliaid a dynion drwg. Yna, gwnaethant gymryd y rhai yr oeddent yn credu bod ganddynt unrhyw eiddo, yn y dydd a'r nos, a'u taflu i'r carchar am eu haur a'u harian. Nid oedd unrhyw ferthyron erioed wedi'u harteithio cymaint â hyn. Cafodd rhai eu crogi gerfydd eu traed a'u mygu â mwg ffiaidd. Cafodd rhai eu crogi gerfydd eu bodiau, eraill gerfydd eu pennau, â llurigau wedi'u hongian ar eu traed. Gwnaethant glymu llinynnau o amgylch eu pennau a'u troi nes iddynt fynd i mewn i'w hymenyddiau. Gwnaethant eu taflu i mewn i ddaeargelloedd lle cawsant eu lladd gan nadroedd a brogaod. Gwnaethant roi rhai mewn cist fer a chul a bas a rhoi cerrig miniog ynddi a gwasgu'r gŵr ynddi a thorri ei freichiau a'i goesau. Roedd hualau trwm mewn sawl castell – garglymau a maglau – a oedd mor drwm fel bod angen dau neu dri dyn i gario dim ond un. Byddent yn cael eu gosod ar drawst; a byddai haearn miniog yn cael ei osod o amgylch gwddf y gŵr fel na allai droi i unrhyw gyfeiriad, nac eistedd, na gorwedd, na chysgu, dim ond dal yr holl bwysau hynny. Gwnaethant ladd miloedd lawer drwy eu newynu. Ni allaf gyfleu'r holl erchyllterau a'r holl boen a wynebodd tlodion y tir hwn. Gwnaeth hyn bara am 19 o aeafau dros y cyfnod pan oedd Stephen yn frenin, ac aeth yn waeth ac yn waeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Datblygiad cestyll

**Eitem 14** Ffotograff o'r unfed ganrif ar hugain o Gastell Cas-gwent ar y clogwyni uwchben Afon Gwy yn Nhrefynwy. Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r castell yn 1067, a hwn oedd y mwyaf deheuol o'r cestyll a gafodd eu hadeiladu ar draws y Mers fel amddiffynfeydd Normanaidd yn erbyn ymosodiadau gan y Cymry.



**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Datblygiad cestyll

**Eitem 15** Golygfa o'r unfed ganrif ar hugain wedi'i hail-greu o Dŵr Llundain, Castell Normanaidd wedi'i amgylchynu gan Waliau Rhufeinig, tua 1100.



© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Datblygiad cestyll

**Eitem 16** Disgrifiad o adeiladu cestyll gorthyrau sgwâr yn y gwerslyfr *The Medieval* Realms (1991).

Roedd gan gestyll tomen a beili wendidau. Roeddent wedi'u hadeiladu allan o bren, a oedd yn pydru'n hawdd a gellid eu rhoi ar dân gan filwyr gelynion. Roeddent hefyd yn gyfyng, yn ddrafftiog ac yn anghyfforddus. Ers dechrau'r goncwest roedd y Normaniaid wedi adeiladu rhai cestyll pwysig, fel y Tŵr Gwyn yn Llundain, allan o garreg. Ar ôl 1100, cafodd llawer mwy o gestyll cerrig eu hadeiladu, ac roeddent fel arfer yn sgwâr o ran eu siâp

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Anheddu Iddewig wedi'r Goncwest Normanaidd

**Eitem 17** Erthygl o'r enw ‘England’s Jewish Population’ yn cyflwyno ymwelwyr i Dŵr Clifford, Efrog ar wefan *English* Heritage (dechrau'r unfed ganrif ar hugain)

Ar ôl y Goncwest Normanaidd yn 1066, daeth nifer o Iddewon i Loegr o Rouen yn Ffrainc. Roedd angen i'r brenhinoedd Normanaidd cynnar fenthyca arian i adeiladu cestyll a diogelu eu teyrnas, ond roedd Cristnogion wedi'u gwahardd rhag benthyca arian. Fodd bynnag, roedd gan Iddewon ganiatâd. Roedd Iddewon Ffrangeg eu hiaith yn cael eu gwarchod gan y Goron, a thros amser sefydlwyd cymunedau yn y rhan fwyaf o brif ddinasoedd Lloegr. Yn ddiweddarach yn y 12fed ganrif, ymsefydlodd aelodau o gymuned Iddewig Lincoln yng Nghaerefrog.

Fodd bynnag, roedd gelyniaeth gynyddol tuag at y boblogaeth Iddewig yn Lloegr. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anghytundeb diwinyddol cyhoeddus rhwng ysgolheigion Iddewig ac eglwyswyr Cristnogol. Yng nghanol y 12fed ganrif, cafodd sawl stori greulon ei rhannu yn cyhuddo Iddewon o ladd plant Cristnogol. Arweiniodd athrodion o'r fath, a elwir erbyn hyn yn ‘Enllib Gwaed’, at atgyfnerthu teimladau gwrth-Semitig yn Lloegr.

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Anheddu Iddewig wedi'r Goncwest Normanaidd

**Eitem 18** Darnau o Rôl Fawr y Siecr ar gyfer pumed flwyddyn teyrnasiad y Brenin Harri II, 1158–1159. Mae'r symiau a gyfrannwyd gan bob cymuned Iddewig at y dreth (donum) a godwyd tua 1159 yn dangos lleoliad y cytundebau hyn.

Swydd Northampton Mae'r un siryf yn rhoi cyfrifiad o 15 punt i Iddewon Swydd Northampton
Llundain a Middlesex Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 200 marc am bob Iddew.
Swydd Gaerwrangon Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 2 farc am bob Iddew.
Swydd Rydychen Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 20 marc am bob Iddew.
Swydd Gaerloyw Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 5 marc am bob Iddew.
Swydd Lincoln Mae'r un siryf yn gwneud cyfrifiad o 40 punt am bob Iddew.
Norwich Mae'r un siryf yn rhoi swm o 45 punt a 6 swllt ac 8 ceiniog i Iddewon Norwich.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Anheddu Iddewig wedi'r Goncwest Normanaidd

**Eitem 19** Cyfrif o lofruddiaeth honedig William o Norwich, prentis deuddeg oed, gan Iddewon yn Norwich yn 1144. Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu gan y mynach, Tomos o Fynwy, yn ei gofiant *The Life and Miracles of St William of Norwich*, rywbryd rhwng 1149 a 1172.

Ond ar y diwrnod canlynol, sef y Pasg iddyn nhw yn y flwyddyn honno, ar ôl canu'r emynau ar gyfer y diwrnod yn y synagog, cipiodd penaethiaid yr Iddewon a oedd wedi ymgynnull yn Nhŷ'r Iddew a enwyd eisoes y bachgen William pan oedd yn cael ei ginio ac nad oedd yn ofni unrhyw frad, a'i drin yn wael mewn sawl ffordd greulon. Am gyfnod wrth i rai ohonynt ei ddal yn ôl, agorodd eraill ei geg a rhoi offeryn arteithio o'r enw 'teazle' ynddi, a'i glymu â strapiau drwy ei enau i gefn ei wddf, a'u clymu â chwlwm mor dynn ag y gellid ei dynnu. Wedyn gwnaethant gymryd darn byr o raff tua thrwch bys bach a chlymu tri chwlwm ynddo ar bellteroedd penodol, a'i rhoi o amgylch pen y bachgen diniwed o'i dalcen i'r cefn, gan orfodi'r cwlwm canol i mewn i'w dalcen a'r ddau arall i mewn i'w arleisiau, a thynnu dau ben y rhaff mor dynn ag y gellid eu tynnu ar gefn ei ben a'u clymu mewn cwlwm tynn iawn. Yna pasiwyd pen y rhaff o amgylch ei wddf a'u clymu o amgylch ei wddf a'i ên, a gwnaethant orffen y weithred arteithio ofnadwy hon gyda phumed cwlwm ...

Ar ôl eillio ei ben, gwnaethant ei drywanu â phwyntiau drain dirifedi, a llifodd y gwaed yn ofnadwy o'r clwyfau hyn ... Roedd rhai o'r sawl a oedd yn bresennol o'r farn iddo gael ei roi ar groes i watwar dioddefaint Crist, gan ddweud “Fel y gwnaethom gondemnio Crist i farwolaeth gywilyddus, gwnawn hefyd gondemnio'r Cristion”.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Anheddu Iddewig wedi'r Goncwest Normanaidd

**Eitem 20** Torlun pren o'r oesoedd canol hwyr o weithdy'r arlunydd Almaenig Michel Wolgemut, yng *Nghronicl Nuremberg* (tua 1493). Mae'n darlunio croeshoeliad William o Norwich gan Iddewon.




**Thema** Crefydd
**Pwnc** Archesgob Lanfranc a Christnogaeth yn Ynysoedd Prydain, 1070–1089


**Eitem 21** Erthygl *BBC Bitesize* ar ddiwygiadau Lanfranc o Eglwys Loegr (dechrau'r 21ain ganrif).

The English church under Archbishop Lanfranc - The Church in Norman England - BBC Bitesize - Adran dan y teitl *'Lanfranc's reforms of the English Church'.*

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Archesgob Lanfranc a Christnogaeth yn Ynysoedd Prydain, 1070–1089

**Eitem 22** Golygfa o'r awyr o Eglwys Gadeiriol Caer-wynt, wedi'i sefydlu yn 1079. Mae'r Eglwys Gadeiriol wedi'i lleoli ar safle eglwys Sacsonaidd wreiddiol, sydd wedi'i hamlinellu mewn coch.



**Thema** Crefydd
**Pwnc** Archesgob Lanfranc a Christnogaeth yn Ynysoedd Prydain, 1070–1089

**Eitem 23** Darn o'r cofnod ar Lanfranc yn y *New Advent* Catholic Encyclopedia (tua 1910)

Roedd Lanfranc wedi cael ei ethol i fod yn Archesgob Rouen yn 1067, ond gwrthododd y cynnig; nawr, fodd bynnag, roedd y Concwerwr am i Lanfranc fod yn olynydd i Stigand (Archesgob Caergaint rhwng 1052 a 1070) ... Cafodd ei gysegru yng Nghaergaint ar 29 Awst, gan Esgob Llundain. Cyflawnodd ddyletswyddau ei safle uchel gyda manteision enw a dysg a phrofiad o'r byd na welwyd yn aml o'r blaen mewn swyddogaeth o'r fath. Roedd polisi eglwysig y brenin yr oedd ef, fel prif gwnselydd, yn gyfrifol yn bennaf am eu llunio, heb os o fudd i'r deyrnas; cafodd y llysoedd sifil ac eglwysig eu gwahanu, a chafodd synodau rheolaidd eu cynnal, lle cafodd rheoliadau i sicrhau gwell disgyblaeth eu pasio a'u gorfodi. Drwy Normaneiddio'r Eglwys ymhellach, daeth yr eglwyswyr brodorol mewn cysylltiad agosach â dysgeidiaeth ac arferion y Cyfandir; ac effeithiwyd ar hyn drwy ddisodli'r holl esgobion ac abadau Sacsonaidd bron â Normaniaid, am resymau bach a mawr. Er y cafwyd gwared ar gulni'r clerigwyr brodorol er y gorau, cafodd llawer o arferion lleol a oedd yn ganmoladwy ynddynt eu hunain, eu dileu hefyd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Archesgob Lanfranc a Christnogaeth yn Ynysoedd Prydain, 1070–1089

**Eitem 24** Crynodeb o'r erthygl *'Liturgy against history: The competing visions of Lanfranc and Eadmer of Canterbury'*, gan yr hanesydd o'r Unol Daleithiau Jay Rubenstein, yn y cyfnodolyn Oesoedd Canol *Speculum* Cyfrol 74, Rhif 2.

Ymddengys i'r seintiau Eingl-Sacsonaidd, fel yr Eingl-Sacsoniaid yn eu cyfanrwydd, wynebu llawer o ddioddefaint oherwydd y Goncwest Normanaidd. Gadawodd haneswyr uchel eu parch, David Knowles a Frank Stenton yn eu plith, ddelweddau lliwgar mewn dychymyg hanesyddol o eglwyswyr Normanaidd rhagfarnllyd a oedd llawn dirmyg tuag at yr hen seintiau Seisnig a oedd yn byw yn y cymunedau y gwnaethant gymryd rheolaeth drostynt. Ond nawr, yn bennaf oherwydd gwaith Susan Ridyard (athro Hanes Prydain ac Ewrop yn yr Oesoedd Canol), mae ein canfyddiadau wedi newid yn ddramatig. Bellach, roedd yn ymddangos bod eglwyswyr Normanaidd wedi bod yn barod i dderbyn eu seintiau newydd yn hytrach na'u condemnio'n llawn amheuaeth.

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Llyfr Domesday

**Eitem 25** Y cofnod ar gyfer Patcham yng nghantref Preston a swydd Sussex yn *Domesday* Book. Mae'r cofnod yn nodi'r tir a ddaliwyd gan William o Warenne yn 1086.

Yng Nghantref PRESTON
Mae William yn dal PATCHAM ei hun, mewn arglwyddiaeth. Fe'i daliwyd gan Iarll Harold cyn 1066. Yna atebodd am 60 gwaith aradr; nawr am 40.
Tir am 80 gwaith aradr. Mewn arglwyddiaeth 8 aradr.
163 o bentrefwyr a 45 o dyddynwyr gydag 82 o erydr.
Eglwys; 6 chaethwas; 10 bugail; dôl, 84 erw;
coetir, 100 o foch; 26 safle yn Lewes am 13s.
Mae Richard yn dal 7 gwaith aradr o'r tir hwn; a theulu o'i 1/2 gwaith aradr.
Mewn arglwyddiaeth mae ganddynt 2 aradr, gyda
2 dyddynnwr.
Cyfanswm gwerth cyn 1066 £100; £50 yn ddiweddarach; £80 nawr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Llyfr Domesday

**Eitem 26** Fideo *BBC Bitesize* yn esbonio pam roedd angen Llyfr Domesday ar William (dechrau'r unfed ganrif ar hugain)

Datgelwyd pa mor llwyddiannus oedd concwest William o Loegr mewn arolwg a gynhaliwyd yn 1086.

Gyda bygythiad cyson gwrthryfela, roedd angen iddo wybod faint o dreth y gallai ei godi i ariannu byddin. Cynhaliodd comisiynwyr Normanaidd gwestau cyhoeddus mewn trefi a phentrefi ledled Lloegr. Roeddent yn cwestiynu pwy oedd deiliaid y tir nawr, a phwy oedd y deiliaid yn 1066. Roeddent am wybod popeth, o sawl gŵr rhydd a sawl caethwas a oedd yno, i sawl aradr a mochyn a oedd yno.
Llyfr Domesday oedd yr enw a roddwyd ar hyn gan bobl Loegr, neu ddydd y farn. Datgelwyd bod William yn meddu ar tua 20% o gyfoeth Lloegr, ei farwniaid 50% a'r Eglwys 25%. Dim ond 5% yr oedd uchelwyr Lloegr a oedd wedi goroesi yn meddu arni.

Roedd yr Eingl-Sacsoniaid wedi cael eu llethu'n llwyr. Roedd William wedi concro a sicrhau grym Lloegr, ac roedd y Normaniaid wedi cymryd drosodd yn llwyr.

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Llyfr Domesday

**Eitem 27** Y cofnod ar gyfer Henffordd yng nghantref Cutestornes yn y *Domesday* Book.

Tir Henffordd (Santes Fair), esgob

| | |
|---|---|
| Aelwydydd | Aelwydydd: 3 phentrefwr 6 thyddynnwr. 2 gaethwas. 3 chaethwas benywaidd. 5 llabwst. |
| Tir ac adnoddau | Tir âr: 10 tîm aradr yr arglwydd. 5.5 tîm aradr y gwŷr. |
| Gwerth | Gwerth blynyddol i'r arglwydd: 7 punt 6 swllt a 12 ceiniog yn 1086; 2 bunt yn 1066. |
| Perchenogion | Prif denant yn 1086: Henffordd (Santes Fair), esgob<br>Arglwyddi yn 1086: Henffordd (Santes Fair), esgob; caplan, dau; teulu, un.<br>Arglwydd yn 1066: Henffordd (Santes Fair), esgob |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Llyfr Domesday

**Eitem 28** Darn o lyfr gan yr hanesydd poblogaidd Phillipa Gregory ar rôl menywod mewn Hanes o'r enw *Normal* Women: *900 years of making History* (2023)

Llyfr Domesday – cipolwg ar Loegr ar adeg ymosodiad William – rhestrwyd 16 667 o dirfeddianwyr gwrywaidd a 479 dirfeddianwyr benywaidd. Ymysg y rhain roedd menywod eithriadol o gyfoethog: roedd Gytha Thorkilsdottir, Iarlles Wessex mam brenin Harold, yn berchen ar ystadau enfawr yn ne Lloegr a oedd yn cwmpasu 11 o siroedd modern. Roedd gwraig ddylanwadol a chyfoethog Harold, Edith Swan Neck yn dal tiroedd eang. Nid oedd dwy o berchenogion benywaidd 1086 wedi'u henwi yn Llyfr Domesday hyd yn oed – cyfeirir atynt fel *gwraig* Hugh, mab Grip, a *mam* Robert Malet.

Ymddangosodd menyw o'r enw Asa, a oedd yn berchen ar ychydig o dir yn Swydd Efrog, yng nghofnodion Domesday yn hawlio ei thiroedd ar ôl iddi wahanu oddi wrth ei gŵr. Dilynodd y rheithgor yn yr achos yr hen gyfraith Eingl-Sacsonaidd: enillodd Asa a daeth i ddal ei thir yn ôl ei hawl ei hun. Roedd yn ffodus i ddod o dan y gyfraith Eingl-Sacsonaidd – byddai'r cyfreithiau Normanaidd newydd yn gorchymyn na allai unrhyw wraig fod yn berchen ar unrhyw dir na'i gadw ar ôl priodi heb gytundeb penodol. Ni allai unrhyw fenyw briodi eto nac ysgaru heb ganiatâd llysoedd neu senedd yr eglwys am wyth canrif wedi hynny.

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Harri I a'r Siarter Rhyddidau, 1100

**Eitem 29** Bywgraffiad o Harri I o wefan y Teulu Brenhinol (tua 2024). Cafodd ei goroni dri diwrnod ar ôl marwolaeth ei frawd, yn erbyn y posibilrwydd y gallai ei frawd hynaf Robert hawlio gorsedd Lloegr pan fyddai'n dychwelyd o'r Groesgad maes o law.

Ar ôl brwydr dyngedfennol Tinchebrai yn 1106 yn Normandi, cwblhaodd Harri ei goncwest o Normandi gan Robert, a dreuliodd 28 mlynedd nesaf ei fywyd yn garcharor i'w frawd mewn cestyll amrywiol yng Nghymru a Lloegr (a oedd yn anarferol hyd yn oed yn y cyfnod hwn).

Roedd Harri yn rheolwr egnïol, penderfynol a chreulon ar adegau, a chanolodd y gwaith o weinyddu Lloegr a Normandi yn y llys brenhinol, gan ddefnyddio rhaglawiaid yn Normandi a grŵp o gynghorwyr yn Lloegr i weithredu ar ei ran pan oedd yn absennol ar draws y Sianel.

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Harri I a'r Siarter Rhyddidau, 1100

**Eitem 30** Cymal 1 o'r *Charter of* Liberties of Henry I (1100)

Gwyddoch, drwy ras Duw a chyngor cyffredin barwniaid teyrnas gyfan Lloegr, fy mod wedi cael fy nghoroni yn frenin ar y deyrnas honno; ac am fod y deyrnas wedi cael ei gorthrymu gan drethiannau anghyfiawn, rwyf i, drwy ofn Duw a'r cariad sydd gennyf tuag at bob un ohonoch, yn y lle cyntaf yn gwneud Eglwys Sanctaidd Duw yn rhydd, fel na fyddaf yn gwerthu nac yn is-osod nac, ar farwolaeth archesgob nac esgob nac abad yn cymryd unrhyw beth o ystâd yr Eglwys na'i dynion nes i'r olynydd gael ei sefydlu. Ac rwy'n cael gwared ar yr holl arferion drwg a orthrymwyd yn annheg ar deyrnas Lloegr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Harri I a'r Siarter Rhyddidau, 1100

**Eitem 31** Delwedd o'r *Chronicle of England* gan John o Gaerwrangon, yn portreadu un o hunllefau neu weledigaethau Harri I (tua 1130). Credir mai'r ddelwedd yw'r portread cyntaf o'r werin yn gwrthryfela yn Lloegr.



**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Harri I a'r Siarter Rhyddidau, 1100

**Eitem 32** Cofnod blog â'r teitl *'The Peasants Are Revolting: The Coronation Charter of Henry I'* ar wefan y Llyfrgell Brydeinig [www.bl.uk] (2015)

Roedd rhai o gyfoedion Harri yn ei gyhuddo o gybydd-dod, creulondeb a llymder. Gan nodi bod Harri wedi methu anrhydeddu ei lw i gynnal cyfreithiau da ac i gael gwared ar yr holl gamweddau yn ei deyrnas, cofnododd y croniclydd John o Gaerwrangon gyfres o freuddwydion a gafodd yn 1130. Ymwelodd tri dosbarth cyffredinol cymdeithas (y werin, marchogion a chlerigwyr) â Harri un ar ôl y llall. Cafodd Harri ei fygwth gan bob grŵp yn ei dro gydag arfau a oedd yn briodol i'w sefyllfa, y werin â'u pladuriau a'u rhawiau, y marchogion â'u cleddyfau a'u tariannau, a'r clerigwyr â'u baglau esgobion. Yn fuan wedi iddo gael yr hunllefau brawychus hyn, daliwyd Harri mewn storm ar y môr a dim ond wedi iddo wneud tri addewid y gwnaeth y storm leddfu: i beidio â chasglu treth gan y Daniaid am 7 mlynedd, i fynd ar bererindod i Bury St Edmunds, ac i gynnal cyfiawnder ledled Lloegr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Yr Ymerodres Matilda a'r Anarchiaeth

**Eitem 33** Darn o lyfr gan yr hanesydd poblogaidd Phillipa Gregory ar rôl menywod mewn Hanes o'r enw *Normal* Women: *900 years of making History* (2023)

Matilda oedd y fenyw Normanaidd gyntaf i etifeddu gorsedd Lloegr, a, thrwy orfodaeth, hi oedd y frenhines filwriaethus gyntaf – ymsefydlodd ei byddin ei hun a'u harwain i frwydr am ddwy flynedd o sgarmesau, hyd at ei buddugoliaeth ym Mrwydr Lincoln yn 1141. Rhoddodd Stephen yr hawlydd yn y carchar ac anwybyddodd alwad gan ei wraig, Brenhines Matilda o Boulogne. Yna, cynullodd Matilda o Boulogne ei byddin ei hun i ysbeilio'r wlad o amgylch Llundain, gan ddarbwyllo Llundeinwyr i gynghreirio â hi yn erbyn yr ymerodres, a symudodd ei lluoedd i Gaer-wynt a rhoddodd gastell yr esgob dan warchae. Aeth Matilda o Boulogne ar drywydd yr Ymerodres Matilda a'i threchu. Am chwe blynedd, arweiniodd yr Ymerodres Matilda ei milwyr ei hun, ei gwŷr a'i marchogion ei hun, a thalodd hurfilwyr i'w chanlyn i frwydr. Yn y pen draw, cydnabu Steven iddo gael ei drechu a chymododd, ond hyd yn oed wedyn ni wnaeth drosglwyddo'r orsedd. Enwodd fab Matilda fel olynydd, a daeth y bachgen yn Harri II.

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Yr Ymerodres Matilda a'r Anarchiaeth

**Eitem 34** *O'r First Continuation of the Peterborough Chronicle* (1127)

1127 Cynhaliodd Brenin Harri ei lys yn Windsor adeg y Nadolig y flwyddyn hon. Roedd Brenin David y Sgotiaid yno a'r holl brif wŷr, dysgedig a lleyg, a oedd yn Lloegr. A gorchmynnodd i'r archesgobion, esgobion, abadau, ieirll a'r holl uchelwyr a oedd yno dyngu llw y dylid rhoi Lloegr a Normandi i'w ferch, Æthelic [Matilda], sef cyn-wraig ymerawdwr yr Almaen, ar ôl iddo farw.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Yr Ymerodres Matilda a'r Anarchiaeth

**Eitem 35** Cyfrif o longddrylliad y White Ship, a oedd yn cludo meibion Harri I yn ôl i Loegr o Normandi, gan y Mynach a'r Hanesydd Seisnig, Orderic Vitalis, yn ei gronicl *Historia* Ecclesiastica [Hanes yr Eglwys] (1141)

Cafodd dau blanc eu dinistrio'n llwyr gan y ddamwain a gwaetha'r modd, llenwodd y llong â dŵr a suddodd. Roedd bonllefau llawn gofid y teithwyr a'r criw i'w clywed ar yr adeg ddychrynllyd hon, ond buan y tawelwyd eu cegau gan y tonnau uchel a bu pob un ohonynt ond dau farw. Llwyddodd y ddau hynny i ddal gafael ar yr hwyl-lath ...

Llwyddodd Thomas, meistr y llong, i ddod at eu synhwyrau ar ôl plymio i'r môr y tro cyntaf a chan godi ei ben uwchlaw'r dŵr, gweiddodd, "Beth sydd wedi digwydd i fab y Brenin?" Atebodd y ddau ddyn a oedd yn gafael yn dynn i'r hwyl-lath drwy ddweud ei fod ef a phawb arall wedi marw. “Yna,” dywedodd Thomas, “does werth i mi fyw mwyach.” A gollyngodd ei hun i'w ffawd mewn anobaith llwyr, gan ei bod hi'n well ganddo ei wynebu ar unwaith yn hytrach na wynebu dicter y brenin neu fyw am weddill ei oes mewn dwnsiwn ...

Berold, sef y dyn tlotaf o'u plith i gyd ac a oedd yn gwisgo dillad croen dafad, oedd yr unig un allan o gynifer a oroesodd i weld diwrnod newydd yn gwawrio.

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Yr Ymerodres Matilda a'r Anarchiaeth

**Eitem 36** Addaswyd o *‘1066 and all that’* mewn canllaw astudio â'r teitl *Presenting* the Past-Topics: *Medieval Women* gan Henrietta Leyser, athro ac arbenigwr ar hanes menywod yn yr Oesoedd Canol (1988)

Lleian a adawodd leiandy Wilton i briodi oedd Matilda. Hi oedd gor-or-or wyres Æthelred. Ei modryb oedd wedi mynd â Matilda i Wilton. Roedd hi'n ei gasáu: “cyn gynted ag y gallwn ddianc oddi wrth fy modryb, rhwygais len y lleian oddi ar fy wyneb a'i daflu i'r llawr a sathru arno”. Pwy wnaeth hi briodi? Harri I o Loegr, mab ifancaf Gwilym Goncwerwr. Buan y gwelwyd y briodas fel arwydd o heddwch rhwng y Saeson a'r Normaniaid a oedd bellach yn eu llywodraethu.

Daeth priodas Matilda yn newyddion tudalen flaen. Ond mewn gwirionedd, roedd pob priodas rhwng Norman a Saesnes yn bwysig. Y priodasau hyn a lwyddodd i gadw'r iaith Saesneg yn fyw. Mae plant yn dysgu sut i siarad gan eu mamau a chan fenywod eraill sy'n gofalu amdanynt, yn hytrach na'u tadau. Felly roeddent yn dueddol o ddysgu Saesneg gan eu mamau Seisnig.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Cydnabyddiaeth:**


| | |
|---|---|
| 1. | O The death of Edward the Confessor and the conflicting claims to the English Crown – History of government (blog.gov.uk) [cyrchwyd 10.04.2024] |
| 2. | Rosemary Kelly, 1991, *A Separate World – Britain in the Middle Ages: 1066–1500*, t.3 |
| 3. | O Explore the Bayeux Tapestry online - Bayeux Museum [Cyrchwyd 10.04.2024] |
| 4. | Malcom Barber,1992. *The Two Cities: Medieval Europe 1050–1320*, pp.306–308 |
| 5. | O Nigel Kelly, 1991, *Heinemann History Study Unites: The Medieval Realms* |
| 6. | O Haydn Middleton and Henrietta Leyser, 1986, *Presenting the Past: Book 1 – Invasion and Integration*, t.77 |
| 7. | Addaswyd o Feudalism in Europe - (medievalchronicles.com) [cyrchwyd 08.04.2024] |
| 8. | O File:Reeve and Serfs.jpg - Wikimedia Commons [Cyrchwyd 09.04.2024] |
| 9. | Addaswyd o Hereward, by Charles Kingsley (gutenberg.org) [Cyrchwyd 09.04.2024] |
| 10. | O The Anglo-Saxon Chronicle (mcllibrary.org) [cyrchwyd 08.04.2024] |
| 11. | O Invasion of Britain stock image \| Look and Learn [cyrchwyd 08.04.2024] |
| 12. | James Mason, 1991. *Medieval* Realms, 1066–1500, t.20 |
| 13. | Addaswyd o JA Burrow a Thorlac Turville-Petre, 1996. *A* Book of Middle English (ail argraffiad), tt.76–78 Addaswyd [cyrchwyd 08.04.2024] |
| 14. | O Chepstow Castle - British Castles [cyrchwyd 09.04.2024] |
| 15. | O Reconstructed View of the Tower of London, Norman Castle with Roman Walls, c.1100 \| Art UK [cyrchwyd 09.04.2024] |
| 16. | O Nigel Kelly, 1991, *Heinemann History Study Unites: The Medieval Realms* |
| 17. | O The Massacre of the Jews at Clifford's Tower \| English Heritage (english-heritage.org.uk) [cyrchwyd 09.04.2024] |
| 18. | Addaswyd o Jews in England 1 - Source 2 - The National Archives [Cyrchwyd 09.04.2024] |
| 19. | O The life and miracles of St. William of Norwich : Thomas of Monmouth : Free Download, Borrow, and Streaming : Internet Archive [tt.20–21. Cyrchwyd 10.04.2024] |
| 20. | O Crucifixion of William van Norwich; Guilhelmus Puer Crucifixus; Liber chronicarum. A boy is tied to a cross in a landscape. The man in the middle of hits a pin through his hand. On the left is a basket. The text describes the representation as the crucifixion of William van Norwich. The print is part of an album Stock Photo - Alamy |
| 21. | The English church under Archbishop Lanfranc - The Church in Norman England - AQA - GCSE History Revision - AQA - BBC Bitesize [cyrchwyd 10.04.2024] |
| 22. | O Haydn Middleton and Henrietta Leyser, 1986, *Presenting the Past: Book 1 – Invasion and Integration*, t.77 |
| 23. | Addaswyd o CATHOLIC ENCYCLOPEDIA: Lanfranc (newadvent.org) [Cyrchwyd 10.04.2024] |
| 24. | O Jay Rubenstein, Liturgy against history: The competing visions of Lanfranc and Eadmer of Canterbury - PhilPapers [cyrchwyd 10.04.2024] |


© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| 25. | O Domesday Book - source 1 - The National Archives [cyrchwyd 09.04.2024] |
| 26. | O The Domesday Book - William's control of England - KS3 History - homework help for year 7, 8 and 9. - BBC Bitesize [cyrchwyd 09.04.2024] |
| 27. | Addaswyd o Hereford \| Domesday Book (opendomesday.org) [cyrchwyd 09.04.2024] |
| 28. | O Philippa Gregory, 2023 *Normal Women: 900 years of making History* tt.6–7 |
| 29. | O Henry I 'Beauclerc' (r. 1100-1135) \| The Royal Family [cyrchwyd 10.04.2024] |
| 30. | O The Charter of Liberties of Henry I, 1100 – The History of England [Cyrchwyd 10.04.2024] |
| 31. | O The Illustrations of John of Worcester's Chronicle of England (CCC MS 157) \| Corpus Christi Hen College Oxford [cyrchwyd 10.04.2024] |
| 32. | O The Peasants Are Revolting: The Coronation Charter of Henry I - Medieval manuscripts blog [Cyrchwyd 10.04.2024] |
| 33. | O Philippa Gregory, 2023 *Normal Women: 900 years of making History.* t.43 |
| 34. | O David Burnley, 1992, *The History of the English Languag*e, t.69 |
| 35. | James Mason, 1991. *Medieval Realms, 1066–1500*, t.26 |
| 36. | O Henrietta Leyser, 1988, *Medieval Women*, t. 17 |


## Hawlfraint

Gwnaed pob ymdrech i gysylltu â pherchnogion hawlfraint pan ystyriwyd bod darnau y tu hwnt i gwmpas bargeinio teg, ac ni chafwyd ymateb gan rai ohonynt. Os bydd yn peri unrhyw bryder i'r cyhoeddwr neu unrhyw barti arall â diddordeb, cysylltwch â ni a byddwn yn gweithredu'n briodol.Hyd eithaf ein gwybodaeth, defnyddir pob eitem arall yn unol â'r Polisi Defnydd Teg; os oes unrhyw hegporiadau neu wallau, cysylltwch â ni fel bod modd gwneud y cywiriadau anghenrheidiol. datblygucymwysterau@cbac.co.uk.

© WJEC CBAC Ltd. 2025